

Cynllun Ehangu Prosiect - Cwis Dim Clem

Beth:

Cynllun cwis cyfrwng Cymraeg i blant oed pontio (blwyddyn 6) yn cyflwyno themau am Gymreictod a'r Gymraeg wedi'u cymysgu gyda phynciau poblogaidd ar ffurf cystadleuaeth cwis. Mae cynnal rowndiau lefel lleol, sirol a rhanbarthol yn rhoi'r elfen gystadleuol i'r plant i'w hannog i gymryd rhan, gyda gwobr i'w ennill ar y diwedd.

Nod:

Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Chymreictod a rhoi cyfle i blant greu perthynas gyda chyfoedion o ysgolion eraill trwy gyfrwng y Gymraeg cyn mynd ymlaen i ysgol uwchradd.

Cynulleidfa:

Wedi'i anelu'n benodol at blant cyfnod pontio ysgol, ysgolion Cymraeg gyda'r posibilrwydd i ehangu i ysgolion ail iaith.

Yn bresennol:

Wedi'i ddatblygu gan fentrau Sir Gâr cyn cael ei ddatblygu yn rhanbarthol rhwng Mentrau'r De Orllewin (GSG, Dinefwr, MCGE, Cered, Sir Benfro, CNPT, Abertawe). Maent yn gwahodd pedwar disgybl o flwyddyn 6 ym mhob ysgol, Cymraeg. Mae'r rowndiau cyntaf yn cael eu cynnal yn lleol, yn un o'r ysgolion sy'n cystadlu, yna rownd derfynol sirol ac un rhanbarthol.

Y bwriad eleni yw cael rownd derfynol "Genedlaethol" yn dilyn y rhai Rhanbarthol.

Pwrpas dros ehangu:

Y bwriad yw ehangu'r gystadleuaeth fel eu bod yn cael eu cynnal yn genedlaethol gyda rowndiau ym mhob rhanbarth, a rownd derfynnol rhwng ennillwyr y rhanbarthau hynny. Bydd cael rhanbarthau eraill yn rhan o fwrlwm Cwis Dim Clem yn sefydlu'r cwis fel gweithgaredd â phwynt cyffredin bydd plant yn gallu siarad amdano o ardal i ardal, sy'n gosod stamp gadarnhaol i'r Mentrau Iaith. Mae hefyd yn ffordd o ymgymryd â'r oedran 'pontio' anodd wrth i blant droi'n bobl ifanc a dewis eu hiaith cymdeithasol.

Camau nesaf:

- Derbyn nodiadau trefnu gan fentrau'r De Orllewin er mwyn eu rhaedru i'r mentrau eraill. (ar y fewnrwyd, tab: "Cwis Dim Clem")
- Mentrau lleol i gysylltu gydag ysgolion posib i asesu diddordeb
- Cynnal cyfarfodydd yn rhanbarthol i bennu dyddiadau a lleoliadau posib.
 - Rownd 1af (grwpiau) dechrau Tachwedd
 - Rownd 2il (cyn-derfynol y fenter) dechrau Chwefror
 - Ffeinal y fenter, diwedd Chwefror

- Ffeinal rhanbarth, dechrau Mawrth
- Ffeinal cenedlaethol, diwedd Mawrth
- Bydd y cwestiynau ar gyfer y cwis yn cael eu llwytho ar y fewnwyd, yr un bydd cwestiynau o ardal i ardal. Ond dylai'r menter ystyried y posibilrwydd o gael rownd fwy 'lleol', os felly bydd mwy o waith gan eich swyddogion er mwyn creu cwestiynau i'r rownd hwn.
- Chwilio am nawdd gwobrau, bydd rhain yn cael eu rhoi i fuddugwyr rhanbarthol. Bydd MIC yn edrych am wobwr 'profiad' ar gyfer buddugwyr y rownd genedlaethol e.e. cael band i fynd i'w hysgol

Gwybodaeth gyffredinol:

Amser gwaith:

- pob sesiwn cwis yn awr a chwarter o hyd, (15 munud yn paratoi ar y dydd, 30 munud o gwis, 20 munud o farcio, mynd trwy'r atebion a gwobrwyo, 15 munud o ddadosod)
- amser paratoi cwestiynau lleol, hyd at hanner diwrnod
- amser cysylltu gydag ysgolion, hyd at ddiwrnod
- Gall y cwis gael ei gynnal ar ôl ysgol neu amser cinio (mae'n bosib bydd ysgolion yn hapus i wneud yn ystod amser gwersi ond mae hyn yn drafodaeth i chi gael gyda'r ysgolion)

Cost prosiect:

- costau teithio i'r cystadleuwyr sy'n mynd ymlaen i gystadlu'n rhanbarthol a chenedlaethol
- costau argraffu lliw y rownd luniau
- tariannau buddugwyr & cystadleuwyr yn y rownd derfynol
- cost 'seleb' posib i arwain rownd Ranbarthol

Strwythur

Rownd 1 Grwpiau Diwedd Tachwedd (yn ddibynnol ar nifer ysgolion sy'n cymryd rhan)	Rownd 2 cyn-derfynol y fenter Dechrau Chwefror	Ffeinal y fenter Diwedd Chwefror	Rownd Sirol (sir Gâr yn unig) Dechrau Mawrth (ble mae rownd Sirol rhwng y 3 menter sydd yn y sir)	Ffeinal Rhanbarthol Dechrau Mawrth	Ffeinal Cenedlaethol Diwedd Mawrth
4 ysgol	2 ysgol	2 ysgol	3 ysgol	Yn ddibynnol ar nifer mentrau/ siroedd sy'n cymryd rhan	3 ysgol
4 ysgol					
4 ysgol	2 ysgol				
4 ysgol					

Y timau - 4 unigolyn o flwyddyn 6 (neu 5 a 6 os yw'n ysgol fechan). Yr ysgol i benderfynu sut mae nhw'n dewis aelodau'r timau, falle cael cwis o fewn yr ysgol megis Barod 123 Menter Fflint a Wreccsam

Rownd 1 - I'w gynnal yn neuadd un o'r ysgolion. Croeso i'r ysgol gael blynyddoedd 5 a 6 i fod yn gynulleidfa. Dim ond y buddugwyr sy'n cael ei nodi, h.y. dim 2il a 3ydd, a chadw'r taflenni sgorio wedyn fel nad yw'r ysgolion yn eu hadolygu gyda chrib mân.

Rownd 2 - fel rownd 1

Ffeinal y Fenter / Rownd Sirol - Mewn man canolog. Cael wyneb cyfarwydd i arwain y cwis. Gwahodd pwysigion i fynychu. Tarian i'r buddugwyr. Os yw'r ysgol am ddod â chynulleidfa yna mae'n nhw i drefnu hyn eu hunain, y fenter ddim yn talu costau am hyn.